

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Equality and Social Justice
Committee**

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

10 Awst 2021

Annwyl Jayne

Cydweithio â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y Chweched Senedd

Fel pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar bob agwedd ar gydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae ein cylch gorchwyl eang yn cynnwys nifer o faterion trawsbynciol pwysig sydd o ddiddordeb i'ch pwyllgor chi ac sy'n cynnig cyfleoedd posibl i gydweithio.

Hoffwn eich gwahodd i drafod y cyfleoedd hyn i gydweithio fel rhan o unrhyw drafodaethau rydych yn eu cael ar gynlluniau strategol eich pwyllgor yn nhymor yr hydref

Gwaith cynnar ar fenywod yn y gweithle

Roeddwn hefyd am roi gwybod bod y pwyllgor wedi cytuno i wneud gwaith cwmpasu ar effaith y pandemig COVID-19 ar fenywod yn y gweithle. Mae canlyniadau negyddol y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar fenywod, yn enwedig menywod sy'n gweithio ac sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac mae'r gwaith cwmpasu yn debygol o arwain at fwrw golwg fanwl ar ba mor rhwydd yw hi i gael mynediad at ofal plant a fforddiadwyedd y gofal hwn. Byddwn yn trafod y gwaith hwn mewn rhagor o fanylder yn yr hydref a byddwn yn hapus i ddarparu rhagor o wybodaeth i chi am ein cynlluniau wrth iddynt ddatblygu.

Yn y cyfamser, os oes gan eich pwyllgor unrhyw syniadau ar gyfer gwaith ar y cyd yr hoffech eu trafod, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm clericio.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.